## Llafar Gwlad 2022: Patagonia 1 – Breuddwyd Y Dorth gan Twm Elias



*Rhan o'r seremoni i ddynodi bryn Y Dorth yn safle sanctaidd i'r Tehuelche*

Yn ystod fy arhosiad diweddar yn y Gaiman yn Nyffryn Camwy, Patagonia, cefais gyfle i fynd i gerdded ar fryniau cyfagos y paith gyda chriw o gerddwyr. Un o'r llefydd y bu inni ymweld ag ef oedd Y Dorth, sy'n lwmp o fryn, tebyg yn nychymyg y Gwladfawyr cynnar i dorth. Cefais stori ryfeddol am y lle, sydd a golygfeydd gwych dros y Dyffryn, ac sydd wedi ei ddynodi yn ddiweddar fel safle sanctaidd i lwyth brodorol y Tehuelche.

Yn 2006 cafodd gwraig o'r Gaiman, sydd yn ddisgynydd o'r brodorion gwreiddiol, freuddwyd ryfedd. Roedd yn gyfarwydd â'r Dorth, ac yn deall fod y lle yn bwysig i'r hen frodorion, ond doedd hi na neb arall wedi sylweddoli pam.

Yn ei breuddwyd gwelodd nifer o freichiau yn codi o'r ddaear ar y copa. Nid oedd ganddi syniad o ystyr y fath freuddwyd, ond y tro nesa yr aeth yno dyma feddwl ymhellach. Yna, wrth i'w llygaid grwydro dros yr amrywiaeth o gerrig mân lliwgar sydd mor nodweddiadol o baith Patagonia, sylwodd ar rhywbeth gwahanol. Gwelodd bod tameidiau o esgyrn dynol yno, ond roeddent mewn cyflwr gwael am fod y tir wedi ei gorddi braidd am yr arferai llanciau lleol ddod yno ar eu *trail bikes*.

Dyma dynnu sylw yr awdurdodau yn y Gaiman, a mynd a samplau i adran archeoleg ac anthropoleg CENPAT (Canolfan Wyddonol Patagonia) ym Mhorth Madryn. Ymhen ychydig amser daeth archeolegwyr o'r Ganolfan yno i ymchwilio ymhellach a chanfod bod claddfan frodorol ar y copa, yn cynnwys gweddillion 13 o bobl, 6 ohonynt yn blant o dan 5 oed. Cafwyd arteffactau cerrig ac addurniadau o gregyn wedi eu tyllu ac aethpwyd â'r darganfyddiadau i gynnal profion pellach. O esgyrn dau unigolyn yn unig yr oedd yn bosib cael data digon dibynadwy i fedru eu dyddio, ac roeddent oddeutu 300 a 350 mlynedd oed.

Wedi pum mlynedd o waith ymchwil ar yr olion, fe'u trosglwyddwyd yn ôl i gymuned y Tehuelche-Mapuche, sy'n gwarchod treftadaeth hanesyddol y brodorion, ar gyfer eu hail-

gladdu yn eu safle wreiddiol. Bu i Awdurdod y Gaiman gyflwyno ryw 30 acer o dir Y Dorth i'r gymuned frodorol a chynhaliwyd seremoni fawr i ail-gladdu'r esgyrn ar y copa yn 2013. Yn ogystal, codwyd cylch o gerrig ar y llethr odditano, gyda symbolau cysegredig ynddo.



*Cynrychiolwyr y brodorion ac un neu ddau o'r gwyddonwyr yn unig aeth i'r copa i ailgladdu'r gweddillion*

Ar y copa ei hun codwyd carnedd o gerrig i nodi lle darganfyddwyd yr esgyrn. Erbyn hyn daeth yn draddodiad i'r rhai sy'n ymweld â'r safle i gario carreg o'r llethrau islaw i'w hychwanegu at y garnedd. Ar y ddau achlysur y bu i mi yno rhoddais gerrig gwynion yno, yn unol â'r traddodiad Cymreig o roi cerrig o'r fath ar feddrodau – y gwyn yn cynrychioli purdeb.



*Cychwyn y garnedd sy’n nodi’r gladdfan ar y copa*

Nid oes rhaid dweud na chaniateir beiciau modur nag unrhyw beth arall fedr ddifrodi’r safle yn agos i’r copa erbyn hyn, a da yw cael dweud bod hynny yn cael ei barchu.

Yn 2018 claddwyd esgyrn un o benaethiaid y Tehuelche ar safle gyfagos at Y Dorth. Bu y rhain yn rhan o arddangosfa mewn amgueddfa yn Buenos Aires ers 1877 ac yna La Plata, pan ystyriwyd nad oedd dim o’i le mewn arddangos gweddillion brodorol ‘cyntefig’. Diolch i’r drefn mae y fath amharch yn prysur ddod i ben erbyn hyn mewn amgueddfeydd ar draws y byd.